At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 14 Hydref 2020

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 20 HYDREF 2020** am **10.00 am** yn **TRWY GYFRWNG FIDEO.**

**SYLWCH: YN SGIL Y CYFYNGIADAU AR DEITHIO A'R ANGEN I GADW PELLTER CYMDEITHASOL, NI GYNHELIR Y CYFARFOD HWN YN EI LEOLIAD ARFEROL. BYDD YN GYFARFOD O BELL TRWY FIDEO-GYNADLEDDA AC NI FYDD AR AGOR I'R CYHOEDD.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – SESIWN AGORED**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 7 - 18)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 22 Medi 2020 (copi ynghlwm).

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

GWAHARDD Y WASG

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem ganlynol yn cael ei thrafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

**5 DULL ARFAETHEDIG I DENDRO AR GYFER CAM 1/ GALLUOGI CONTRACT GWAITH AR GYFER ESTYNIAD YSTÂD DDIWYDIANNOL COLOMENDY GAN GYNNWYS GORSAF TROSGLWYDDO GWASTRAFF CSDD** (Tudalennau 19 - 40)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gyflawni'r ymarfer tendro arfaethedig i adnabod prif gontractwr i ddarparu Cam 1/ Galluogi Contract Gwaith ar gyfer rhoi estyniad i Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych.

**RHAN 1 – SESIWN AGORED**

**6 EITEM O'R PWYLLGOR CRAFFU – ADOLYGU PENDERFYNIAD CABINET SY'N BERTHNASOL I GAEL GWARED AR DIR YN YMYL YSGOL PENDREF, DINBYCH** (Tudalennau 41 - 66)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Huw Williams, Cadeirydd Pwyllgor Craffu Cymunedau (copi ynghlwm) yn nodi casgliadau y daeth y Pwyllgor Craffu iddynt yn dilyn ystyried penderfyniad y Cabinet a alwyd i mewn ar 22 Medi 2020, o ran cael gwared ar dir yn ymyl Ysgol Pendref ac argymell i'r Cabinet i ailedrych ar ei benderfyniad i ystyried casgliadau'r Pwyllgor Craffu ac argymhellion pellach.

**7 ESTYNIAD I FFRAMWAITH HAMDDEN Y DU Y CYNGOR** (Tudalennau 67 - 70)

Ystyried adroddiad ar y cyd gan y Cynghorwyr Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) a Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i roi estyniad i Fframwaith Hamdden y DU y Cyngor tan fis Ionawr 2022.

**8 CONTRACT CAEL GWARED AR ASBESTOS** (Tudalennau 71 - 94)

I ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gychwyn proses gaffael ar gyfer contract gwaith gyda Chontractwyr Cael Gwared ar Asbestos.

**9 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 95 - 116)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

**10 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET** (Tudalennau 117 - 120)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol amgaeedig y Cabinet a nodi'r cynnwys.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

**Hugh Evans**
**Bobby Feeley**
**Huw Hilditch-Roberts**
**Richard Mainon**
**Tony Thomas**
**Julian Thompson-Hill**
**Brian Jones**
**Mark Young**

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned